

# Is-adran y Môr a Physgodfeydd / Marine & Fisheries Division



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Adam Cole-King  
Uwch-gynghorwr Safleoedd Rhyngwladol  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Maes-y-ffynnon,  
Penrhosgarnedd,  
Bangor  
LL57 2DW

Hydref 2013

Annwyl Adam,

## **Par: Newidiadau Arfaethedig yn AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli/ Aberdaron Coast and Bardsey Island, AGA Skokholm and Skomer, ac AGA Grassholm**

Ysgrifennaf rhagor i neges e-bost yr 16<sup>eg</sup> o Hydref 2013, lle'r ailgyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau arfaethedig yn nhair Ardal Gwarchodaeth Arbennig: AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli/ Aberdaron Coast and Bardsey Island, AGA Skokholm and Skomer, ac AGA Grassholm.

Ystyriwyd eich argymhellion, ac ysgrifennaf atoch er mwyn eich hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn cynnig ailddosbarthu'r tair AGA yn unol â'r cyngor diwygiedig, er mwyn bwrw ymlaen â chanfyddiadau Adolygiad AGA 2001, a chynnwys yr ardaloedd morol pwysig. Gofynna'r llythyr hwn i CNC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cynlluniau, er mwyn rhoi cyfle i bawb y gallai'r newidiadau effeithio arnynt, neu sydd â gwybodaeth wyddonol berthnasol, gyfle i wneud sylwadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y sail y dosberthir AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli/ Aberdaron Coast and Bardsey Island arni am y rhesymau canlynol:

- Newid yn rhif rhywogaethau cymhwysol Brain Coesgoch *Pyrhocorax pyrrhocorax* sydd yn bridio (rhywogaeth a restrir ar Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar) ac Adar Drycin Manaw *Puffinus puffinus* sydd yn bridio (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd).
- Mae'r safle'n cynnal, yn rheolaidd, ragor nag 1% o boblogaeth nad yw'n bridio o Frain Coesgoch *Pyrhocorax pyrrhocorax* Prydain Fawr (rhywogaeth a restrir ar Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar).
- Mae data safle penodol wedi dangos bod poblogaeth fridio o Adar Drycin Manaw *Puffinus puffinus* (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd) yn defnyddio'r dyfroedd ogyrch Ynys Enlli, ac yn dibynnu arnynt yn ecolegol. Arfaethir ymestyn

Bioamrywiaeth a Chadwraeth Forol  
Is-adran y Môr a Physgodfeydd  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801258

E-bost: Louise.George@wales.gsi.gov.uk

radiws ffin bresennol yr AGA ogyrch Ynys Enlli gan 9klm er mwyn cynnwys yr ardal forol hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y sail y dosberthir AGA Skokholm and Skomer arni am y rhesymau canlynol:

- Newid yn rhif y rhywogaethau cymhwysol Pedrynnod Drycin *Hydrobates pelagicus* sydd yn bridio (rhywogaeth a restrir ar Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar), Adar Drycin Manaw *Puffinus puffinus* sydd yn bridio (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd), a Phalod *Fratercula artica* sydd yn bridio (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd).
- Mae'r safle'n cynnal, yn rheolaidd, ragor nag 1% o boblogaeth fridio Brain Coesgoch *Pyrhocorax pyrrhocorax* Prydain Fawr (rhywogaeth a restrir ar Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar).
- Canfu Adolygiad AGA 2001 boblogaeth fridio o Dylluanod Clustiog *Asio flammeus* (rhywogaeth a restrir ar Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar), yn nodwedd gymhwysol.
- Mae'r safle'n cynnal, yn rheolaidd, ragor nag 1% o boblogaeth fiordaearyddol yr Wylan Gefnddu Leiaf *Larus fuscus* sydd yn bridio (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd).
- Mae'r safle'n cynnal, yn rheolaidd, ragor nag 20,000 o adar môr yn ystod y tymor bridio.
- Nid yw poblogaeth fridio y Llurs *Alca torda* (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd) yn gymwys i'w hystyried yn rhywogaeth restredig, bellach, ond y mae'n aelod-rywogaeth o'r casgliad adar môr.
- Mae data safle penodol wedi dangos bod poblogaethau Adar Drycin Manaw a Phalod sydd yn bridio (rhywogaethau ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd) yn defnyddio ac yn dibynnu'n ecolegol ar y dyfroedd ogyrch Ynys Sgogwm ac Ynys Sgomer, fel y mae Gwylogod a Llursod. Arfaethir ymestyn radiws ffin bresennol yr AGA ogyrch Ynys Sgogwm ac Ynys Sgomer gan 4klm er mwyn cynnwys yr ardal forol hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y sail y dosberthir AGA Grassholm arni am y rhesymau canlynol:

- Newid yn rhif y rhywogaeth gymhwysol yr Hukan *Morus bassanus* sydd yn bridio (rhywogaeth ymfudol a ganfyddir yno'n rheolaidd).
- Mae arolygon penodol wedi dangos bod poblogaethau bridio yr Hukan *Morus bassanus* yn defnyddio ac yn dibynnu'n ecolegol ar y dyfoedd gerllaw eu nythfeydd bridio. Arfaethir ymestyn radiws ffin bresennol yr AGA ogyrch Ynys Gwales gan 2klm er mwyn cynnwys yr ardal forol hon.

Mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod rhaid seilio'r penderfyniad ynghylch pa un ai y dylid dosbarthu (neu ddynodi) safle ai peidio ar wybodaeth wyddonol yn unig. Mae'n bwysig, fodd bynnag, i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd sy'n canlyn y newidiadau arfaethedig, felly rydym wrthi'n cynnal Asesiad Effaith. Bwriadwn i'r Asesiad Effaith fod yn rhan o'r pecyn ymgynghori. Cynhwysir, gan

hynny, ddolen gyswllt â rhan berthnasol gwefan Llywodraeth Cymruar wefan CNC, ynghyd â phapurau eraill yr ymgynghoriad.

Yn ddiffuant

**Julian Bray**  
**Bioamrywiaeth a Chadwraeth Forol**